Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Glanmorfa Care Home Ltd**

**52-54 Heol yr Orsaf**
**Cydweli**
**SA17 4UR**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

9 Tachwedd 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ynglŷn â Glanmorfa Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Glanmorfa Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'. |

## Crynodeb

Mae gan Gartref Gofal Glanmorfa awyrgylch hamddenol sy'n helpu pobl ac ymwelwyr i deimlo'n gartrefol. Mae gweithwyr gofal yn frwdfrydig ac yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl: maen nhw'n adnabod pobl yn dda ac yn rhyngweithio mewn modd caredig a gofalgar. Mae cofnodion gofal yn disgrifio'n glir sut mae gweithwyr gofal yn diwallu anghenion unigol pobl. Mae'r cartref yn cadw pob unigolyn yn ddiogel trwy ddefnyddio mesurau rheoli heintiau cadarn.

Mae tîm rheoli sefydledig yn ymdrechu'n barhaus i ddatblygu cymorth i bobl lle bynnag y bo modd. Mae'r unigolyn cyfrifol ar gael yn rheolaidd i siarad â phobl sy'n byw yn y cartref, eu cydberthnasau, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a gweithwyr gofal i gael adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Mae systemau archwilio yn monitro ansawdd y gofal y mae pobl yn ei dderbyn ac mae uwch-staff yn gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r darparwr wedi bod yn rhagweithiol yn ystod y pandemig, gan gadw pobl yn y gwasanaeth a gweithwyr gofal yn iach trwy ddefnyddio arferion diogel. Mae tîm cynnal a chadw bach yn cynnal y cartref i safon uchel. Dywed gweithwyr gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan y rheolwr ac yn derbyn goruchwyliaeth unigol reolaidd i drafod eu gwaith. Mae ystod eang o hyfforddiant staff ar gael i helpu gweithwyr gofal i gefnogi pobl yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Llesiant

Mae'r rheolwr yn gwahodd pobl i leisio'u barn ar lawer o agweddau ar eu bywydau, megis bwydlenni bwyd, gweithgareddau ac addurniadau. Mae gweithwyr allweddol yn cymryd amser yn rheolaidd i siarad â phobl am eu dewisiadau, ac mae'r pobl yn y cartref yn dweud bod y gweithwyr gofal wirioneddol yn gwrando arnyn nhw. Anogir pobl i gynnal cydberthnasau da gyda pherthnasau a ffrindiau: yn ystod y pandemig, roedd y cartref yn cefnogi pobl mewn amryw o ffyrdd i gadw mewn cysylltiad ag eraill sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys addasu un ystafell er mwyn cynnal ymweliadau yn ddiogel. Mae hanesion bywyd yn disgrifio'r hyn sy'n bwysig i bobl ac mae cynlluniau personol yn disgrifio anghenion cymorth pob unigolyn yn glir. Mae hyn yn golygu bod pobl yn derbyn y cymorth maen nhw ei eisiau. Fodd bynnag, ni all y rheolwr ddangos ar hyn o bryd bod pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn adolygiadau cynllun gofal. Mae'r rheolwr yn cytuno bod angen iddynt ddangos tystiolaeth bod hyn yn digwydd, ac mae'n bwriadu newid y ffordd y mae'r prosesau hyn yn cael eu dogfennu. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob unigolyn. Mae cyfathrebu da yn y tîm ac mae uwch-staff yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel meddygon a nyrsys ardal pan fo angen.

Mae'r darparwr yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg: mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdano. Mae llawer o bobl y cartref yn siarad Cymraeg ac mae sawl aelod o staff yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r rheolwr yn ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu hyn, fel y posibilrwydd o gyfieithu datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth y cartref i'r Gymraeg.

## Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr yn ystyried ystod o wybodaeth i sicrhau y gall ddiwallu anghenion pobl cyn eu derbyn i'r cartref. Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan berthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol, fel gweithwyr cymdeithasol. O hyn, mae uwch-staff yn datblygu cofnodion gofal sy'n disgrifio trefniadau a gofynion cymorth pobl. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n anodd gweld bod uwch-staff yn adolygu cynlluniau gofal pob unigolyn yn rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cytuno bod angen iddynt roi tystiolaeth sy'n dangos bod hyn yn digwydd, ac mae'n bwriadu newid y ffordd y mae'r prosesau hyn yn cael eu dogfennu. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae pobl yn derbyn cymorth fel y disgrifir yn eu cynlluniau gofal. Mae'n amlwg y gall pobl ddilyn eu harferion eu hunain fel y dymunant a'u bod yn teimlo bod y tîm staff yn eu cefnogi'n dda. Mae pobl yn dweud, *“Mae'r staff yn hyfryd,” “does dim yn ormod o drafferth iddyn nhw”* ac *“maen nhw bob amser o gwmpas pan oes eu hangen arnoch.”* Dywed pobl eraill fod y gweithwyr gofal yn y cartref yn *“garedig”* ac yn *“barchus”*. Dywed pobl eu bod yn hoffi'r bwyd, yn gallu dewis dewisiadau amgen os nad ydyn nhw'n hoffi'r hyn sydd ar gael ar y pryd, ac yn cael cynnig diodydd a byrbrydau yn rheolaidd.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i amddiffyn pobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae cofnodion gofal yn nodi'n glir unrhyw risgiau i iechyd a llesiant pobl, ac mae cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw pobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl.
Mae gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol wrth gadw pobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio os bydd angen gwneud hynny.

Mae'r cartref yn hyrwyddo diogelwch pob unigolyn bob amser. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o haint ac arferion hylendid da ledled y cartref. Gall gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau pryd bynnag y bo angen. Mae'r holl fesurau'n cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau bod pobl yn ddiogel rhag heintiau COVID-19, gan gynnwys monitro a phrofi pob ymwelydd â'r cartref. Er bod y cartref yn gyffredinol yn storio cynhyrchion glanhau yn ddiogel, gwnaethom nodi bod rhai pobl wedi gadael eu pethau ymolchi mewn ystafell ymolchi gymunedol, gan olygu bod posibilrwydd i unrhyw un eu camddefnyddio. Bydd y rheolwr yn ymchwilio i'r rhesymau dros hyn ac maen bwriadu sicrhau bod pobl yn cadw eu nwyddau ymolchi yn ddiogel yn eu hystafelloedd pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn derbyn cymorth mewn amgylchedd cartrefol a dymunol. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân ac mae pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyffyrddus ac yn hapus yn byw yng Nghartref Gofal Glanmorfa. Mae pobl yn byw naill ai ar lawr daear neu lawr cyntaf yr adeilad. Mae lifft, yn ogystal â grisiau, ar gael i bobl eu defnyddio er mwyn cael mynediad i wahanol ardaloedd os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny. Mae digon o le yn yr ystafelloedd gwely ac maent wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r preswylydd, gyda thrugareddau addurniadol, ffabrigau, lluniau ac eitemau o ddodrefn. Mae cyfleusterau a chyfarpar yn hyrwyddo annibyniaeth pob unigolyn gymaint â phosibl: mae ystafelloedd ymolchi wedi'u haddasu a choridorau llydan ledled yr adeilad i helpu pobl â llai o symudedd. Mae pwll hydrotherapi hefyd yn yr adeilad i bobl ei ddefnyddio pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Gall pobl ddewis ble i dreulio eu hamser, boed hynny yn eu hystafelloedd eu hunain neu gydag eraill mewn ardaloedd cymunedol. Gwnaethom nodi bod pobl wedi grwpio eu hunain mewn un ardal o lolfa fach, tra oedd lolfa arall â mwy o le yn wag – esboniodd y rheolwr eu bod wedi gwneud popeth i annog pobl i ddefnyddio'r lolfa arall, ond ar bob achlysur, roeddent i gyd wedi dychwelyd i'r lolfa fach. Mae pobl yn hapus yma ac yn hoffi gweld gweithwyr gofal ac ymwelwyr yn mynd a dod trwy gydol y dydd. Fodd bynnag, mae'r tîm staff yn parhau i ddyfalbarhau â hyn – er enghraifft, yn cael diddanwyr i ddefnyddio'r lolfa fawr pan fyddant yn ymweld.

Mae pobl yn ddiogel rhag ymwelwyr anawdurdodedig yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch ar y drws ffrynt cyn cael mynediad a chofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth ddod i mewn a gadael. Mae cofnodion gofal yn cael eu cadw'n ddiogel mewn swyddfa, ac ar gael i weithwyr gofal awdurdodedig yn unig. Mae cofnodion personél gweithwyr a chofnodion trefniadau wrth amddifadu o ryddid yn cael eu storio'n ddiogel mewn swyddfa sydd wedi'i chloi.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith ac mae gweithwyr gofal yn defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol perthnasol wrth ddarparu gofal personol. Mae dau unigolyn cynnal a chadw yn gwirio'r cyfarpar yn fisol. Nid oes rhwystrau i'r allanfeydd tân ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos tystiolaeth o brofion larwm tân wythnosol. Mae archwiliadau diogelwch cynnal a chadw yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni a argymhellir ac mae cyfarwyddiadau clir yn cael eu harddangos yn y cartref ynglŷn â beth i'w wneud pe bai tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

At ei gilydd, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, gan roi sylw cadarnhaol i bob unigolyn sy'n derbyn cymorth. Yn ystod pandemig eleni, mae'r unigolyn cyfrifol ac uwch-staff eraill wedi cadw cysylltiad rheolaidd â phobl yn y cartref a'r tîm staff. Mae trafodaethau rheolaidd wedi cael eu cynnal gydag aelodau teulu pobl a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae archwiliadau rheolaidd yn monitro pob agwedd ar ofal pobl, gan gynnwys meddyginiaeth, mesurau rheoli heintiau a chadw cofnodion. Datrysir unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus i ddarparu'r cymorth cywir i bobl. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn digwydd cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio – mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau geirdaon, gwiriad ffotograff, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rhaglen sefydlu staff yn cysylltu â 'Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ddementia. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i weithwyr gofal drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Crynhoir holl ganfyddiadau'r archwiliadau mewn adroddiadau ansawdd gofal bob chwe mis, sy'n nodi camau gweithredu a gwelliannau arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, gall gweithwyr drafod unrhyw faterion y maent am eu codi mewn cyfarfodydd goruchwylio bob tri mis.

Dywed pobl a pherthnasau eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae gweithwyr gofal yn trin pobl ag urddas a pharch. Pan ddaw pobl i'r cartref am y tro cyntaf, mae ganddyn nhw ganllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n disgrifio'r hyn y gallant ei ddisgwyl o'r cartref ynghyd â manylion y broses gwynion pe bai angen iddynt ei defnyddio. Dywed pobl eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen iddynt wneud hynny, a'u bod yn hyderus y byddai'r rheolwr yn gwrando arnynt pe byddent yn gwneud hynny. Dywedodd un unigolyn, *"Na, nid ydw i wedi bod angen cwyno. Mae'r popeth yn dda yma ac mae'r staff yn hollol wych."* Mae gweithwyr gofal yn cael diweddariadau hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol. Fe wnaethant ddweud wrthym fod uwch-aelodau staff yn eu cefnogi'n dda a'u bod bob amser ar gael i roi cyngor os oes angen.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid oes digon o dystiolaeth i ddangos bod cofnodion gofal yn cael eu hadolygu bob tri mis – neu fod pobl neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau. | Newydd |
| 16 | Nid oes digon o dystiolaeth i ddangos bod pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn adolygiadau cynllun gofal. | Newydd |
| 44 | Nwyddau ymolchi yn cael eu gadael mewn ystafell ymolchi gymunedol gyda'r posibilrwydd o unrhyw un eu camddefnyddio. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 20/12/2021